Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

9. Asedau

9.4 Technoleg Gwybodaeth

Mae'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth gan y sector gwirfoddol wedi newid yn gyflym mewn blynyddoedd diweddar. Mae'r rhan fwyaf o fudiadau gwirfoddol, erbyn hyn, yn defnyddio pob math o offer Technoleg Gwybodaeth (TG) yn amrywio o sganiwr i gamerâu digidol. Mae nifer fawr hefyd yn hyrwyddo eu mudiadau trwy'r rhyngrwyd (y we fyd-eang).

At ba ddiben y'i defnyddir a phwy sy'n mynd i'w ddefnyddio?

Mae amrywiaeth anferth o offer a gwasanaethau ar gael i chi – yr allwedd yw diffinio'n glir at ba ddiben y defnyddir y cyfarpar, a phwy sy'n mynd i'w ddefnyddio. Gwnewch arolwg – gofynnwch i grwpiau eraill – gwnewch yn siŵr fod gennych gynllun clir o'r hyn a fydd yn digwydd i'r cyfrifiadur ar ôl i chi ei brynu. Bydd hyn yn eich helpu i roi ffocws ar y darlun ac ar ymchwil ar gyfer y dyfodol.

Sicrhau gwybodaeth gyfredol

Gan eich bod yn gwybod rŵan at beth yr ydych ei angen, ystyriwch brynu cylchgronau oherwydd y bydd ganddynt lawer o hysbysebion i'w darllen ac, fel arfer, adolygiadau o'r modelau diweddaraf. Bydd hyn yn rhoi syniad i chi o'r hyn y gellwch ei gael am bris penodol. Ewch i'ch siop gyfrifiaduron leol a gofynnwch am gyngor yno hefyd.

Os oes gennych fynediad at y rhyngrwyd, bydd rhai o'r safleoedd yn rhoi'r manylebion diweddaraf i chi.

Caledwedd

Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau, mae'n rhaid i chi ymchwilio i'r gwahanol fathau o gyfrifiaduron. Gallai gliniadur fod yn ddefnyddiol ac yn fwy ymarferol i'w basio o amgylch grŵp os ydych chi'n gweithio ar gylchlythyr. Neu gallai bwrdd gwaith fod yn haws os oes gennych chi neuadd neu swyddfa i eistedd ynddi. Y dyddiau hyn mae potensial cyfrifiaduron ymhell y tu hwnt i'r defnydd a wneir ohonynt gan ddefnyddwyr arferol felly nid oes angen i chi boeni am faint y prosesydd, y cof na maint y ddisg galed ac ati fel oedd yn rhaid gwneud yn y dyddiau a fu.

Cynnal a chadw caledwedd

Bydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda'ch cyfrifiadur ar ryw adeg neu'i gilydd – mae hyn yn ffaith, boed yn niwed damweiniol neu'n gydran yn mynd o'i le. Edrychwch ar y gwahanol opsiynau ar gyfer gwarant/cynnal a chadw ar y safle. A yw wedi'i gynnwys ac am ba hyd? A fydd y gwaith yn digwydd ar y safle neu a oes rhaid dychwelyd y cyfrifiadur? Gallai hyn ddylanwadu ar eich penderfyniad i brynu ar-lein neu'n lleol, os ydych chi'n meddwl y gallech gael gwell gwasanaeth gan siop gyfrifiaduron lleol.

Trwyddedau Meddalwedd

Bydd eich cyfrifiadur yn cyrraedd, fel arfer, gyda'r system weithredu, fel *Microsoft Windows Vista* wedi'i gosod yn barod, felly nid oes raid i chi boeni am hyn. Mae'n bosib y cewch chi becyn sy'n cynnwys llawer o feddalwedd o amrywiol ddefnydd i chi. Efallai y bydd angen i chi brynu trwyddedau meddalwedd penodol eraill ar gyfer prosesu geiriau, cronfeydd data ayb. I fod yn gyfreithiol bydd yn rhaid i chi, fel arfer, brynu trwydded i bob Cyfrifiadur personol – ni ellwch brynu un drwydded a'i gosod ar sawl cyfrifiadur! Efallai gallwch ddod o hyd i drwyddedau elusennol rhatach oddi wrth Charities Technology Exchange.

Fel arall, gellwch lawrlwytho meddalwedd *Open Source* yn ddi-dâl. Mae gan hwnnw'r un nodweddion â phecynnau prif ffrwd fel Microsoft. Fodd bynnag, gallai dod o hyd i hyfforddiant lleol a chefnogaeth ar ei gyfer fod yn anodd, ond gallai fod yn opsiwn.

Os ydych chi'n mynd i ddefnyddio'r Rhyngrwyd, bydd angen meddalwedd diogelu arnoch (rhaglen wrth-firysau, wal dân ayb.) – unwaith yn rhagor mae rhai ohonynt yn ddi-dâl ond mae'n bosib y byddwch yn dewis defnyddio un o'r pecynnau adnabyddus fel Norton, McAfee ayb i roi gwarchodaeth gyffredinol i chi. Peidiwch ag anghofio y bydd angen diweddaru'r rhain yn flynyddol felly cofiwch gynnwys y gost yn eich costau cynnal.

Mynediad i'r rhyngrwyd

Os ydych chi eisiau mynediad i'r Rhyngrwyd bydd angen i chi edrych i mewn i'r costau cychwynnol a'r costau parhaus am linell ffôn a gwasanaeth rhyngrwyd. Unwaith eto, ceir nifer o becynnau Band llydan a Darparwyr Gwasanaeth Rhyngrwyd felly gwnewch rywfaint o waith cartref, holwch, ewch i adolygu safleoedd i sicrhau'r gwasanaeth sy'n gweddu orau i'ch anghenion chi. Os yw pobl iau yn mynd i ddefnyddio'r Rhyngrwyd, efallai y byddwch eisiau prynu meddalwedd amddiffyn plant.

Beth arall fydd ei angen arnoch?

Gallai prynu argraffydd lliw canolig ei bris sy'n gallu sganio a llungopïo ategu cyfleusterau eich grŵp. Cofiwch fod y cetris lliw yn ddrud, ac ychwanegwch y rhain at eich costau rhedeg, ond os ydych chi eisiau cynhyrchu deunydd o ansawdd da, gallai hyn fod werth y gost. Mae'n bosib na fydd argraffwyr rhatach a llai cadarn yn gallu gwrthsefyll yr holl ddefnydd a gaiff ei wneud ohonynt. Mae camerâu digidol yn gymharol rad ac maent yn dod gyda rhywfaint o feddalwedd ar gyfer golygu ayb. Gallant hefyd fod yn ddefnyddiol i ffilmio fideo syml.

Ble fydd y cyfrifiadur yn byw?

Mae angen gosod y cyfrifiadur mewn lle diogel gyda desg cyfrifiadur a chadair i sicrhau ei fod yn gyfforddus i'w ddefnyddio. Byddwch yn casglu blwch bach o CDau a thrwyddedau ayb. Bydd angen cadw'r rheiny'n ddiogel a sicrhau eu bod ar gael i'r grŵp.

Ydi un yn ddigon?

Os oes gennych chi ystafell fawr a'ch bod yn bwriadu rhedeg cyrsiau neu gynnal gweithgareddau grŵp, bydd angen i chi ystyried rhwydweithio'r cyfrifiaduron er mwyn iddynt allu rhannu

adnoddau fel yr argraffydd. Rhwydweithio yw pan fo'r holl gyfrifiaduron wedi'u cysylltu â'i gilydd gyda cheblau neu gyswllt diwifr. Unwaith yn rhagor, ceir llawer o gwestiynau ac atebion – defnyddiwch yr un egwyddorion ag o'r blaen, a deall eich anghenion cyn i chi brynu - ni fyddwch yn gwastraffu eich amser.

Copïau wrth gefn

Hon yw'r agwedd bwysicaf i'w hystyried, ond mae cynnyrch niferus ar gael at y diben hwn fel gyriant tapiau, gyriant allanol a chyfryngau CD/DVD. Gallwch hefyd ddefnyddio datrysiadau ar-lein rhad ac isel eu cost. Gwnewch gopi wrth gefn o ddata hanfodol yn feunyddiol a sicrhewch fod unrhyw gopïau wrth gefn yn cael eu gwirio a'u profi.

Gwybodaeth bellach

Open Source
www.osalt.com

London Advice Services Alliance
www.lasa.org.uk

Pugh Computers (Medalwedd)
www.pugh.co.uk

Broadband Checker
www.broadbandchecker.co.uk

'How to Cost and Fund ICT' booklet
www.icthub.org.uk

Charities Technology Exchange
www.ctxchange.org.uk

Lasa ICT Knowledgebase -
www.ictknowledgebase.org.uk

Wales CVC Circuit Riders
www.walescvccircuitriders.org.uk

ICT Champion
www.ictchampions.org.uk/

IT Volunteers
www.it4communities.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn
Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA
Elusen Gofrestredig *1088828*

Ffôn: 01248 724944 post@medrwnmon.org
Ffacs: 01248 750149 www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:29/07/2010

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk